Cynllun Strategol 2022-25

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Gweledigaeth – Cymru lle gall pobl fyw eu bywyd yn Gymraeg

1 **Amcan Strategol 1:** Sicrhau tegwch, cyfiawnder a hawliau i siaradwyr Cymraeg

2 **Amcan Strategol 2:** Sicrhau bod y Gymraeg yn ystyriaeth ganolog mewn polisi a deddfwriaeth

3 **Amcan Strategol 3:** Cynnal a chynyddu cydymffurfiaeth sefydliadau gyda'u dyletswyddau statudol

4 **Amcan Strategol 4:** Cynyddu defnydd o'r Gymraeg gan sefydliadau ar draws pob sector

Blaenoriaethau mesuradwy – Cynllun gweithredol blynyddol

Gweithredu a galluogi corfforaethol

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Gwerthoedd

Mae **parchu** pawb y byddwn yn gweithio â hwy yn ganolog i bopeth a wnawn.

Mae bod yn **agored** ac **ymddiried** yn ein gilydd yn sylfaen i'r diwylliant rydym yn ei arddel yn y gweithle.

Rydym yn ymdrin â phob agwedd o'n gwaith gyda **thegwch**, **gonestrwydd** a **chysondeb**.

Mae **cydweithio gydag eraill** mewn ffordd briodol a blaengar yn bwysig i ni.